
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 1276 (Cy. 259)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Hadau (Cywerthedd)
(Diwygio) (Cymru) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Erthygl 6 o Benderfyniad y Cyngor 2003/17 dyddiedig 16 Rhagfyr 2002 ar gywerthedd archwiliadau maes a gynhelir mewn trydydd gwledydd ar gnydau sy'n cynhyrchu hadau ac ar gywerthedd hadau a gynhyrchir mewn trydydd gwledydd er mwyn estyn dyddiad dod i ben y Penderfyniad hwn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 1276 (Cy. 259)

HADAU, CYMRU

**Rheoliadau Hadau (Cywerthedd)
(Diwygio) (Cymru) 2022**

<i>Gwnaed</i>		<i>5 Rhagfyr 2022</i>
<i>Gosodwyd Cymru</i>	<i>gerbron</i>	<i>Senedd 7 Rhagfyr 2022</i>
<i>Yn dod i rym</i>		<i>30 Rhagfyr 2022</i>

Mae Gweinidogion Cymru, y mae'r pwerau a roddir gan adran 16(1) i (4) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(1) wedi eu breinio bellach ynddynt(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny sy'n ymddangos i'r Gweinidogion yn rhai cysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno.

-
- (1) 1964 p. 14. Diwygiwyd adran 16(1), a mewnosodwyd adran 16(1A), gan baragraff 5 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68). Mae'r pwerau yn Neddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, o'u darllen ynghyd â pharagraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) yn caniatáu gwneud addasiadau i "retained direct minor EU legislation" fel y'i diffinnir yn adran 7(6) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964. Gweler adran 38(1) am y diffiniad o "the Minister".
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 2 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2022.

Diwygio Penderfyniad y Cyngor 2003/17/EC

2.—(1) Mae Penderfyniad y Cyngor 2003/17 ar gywerthedd archwiliadau maes a gynhelir mewn trydydd gwledydd ar gnydau sy'n cynhyrchu hadau ac ar gywerthedd hadau a gynhyrchir mewn trydydd gwledydd⁽¹⁾ wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 6, yn lle "31 December 2022" rhodder "31 December 2029".

Lesley Griffiths

Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r
Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
5 Rhagfyr 2022

(1) EUDN 2003/17. Mae diwygiadau i'r Penderfyniad hwn ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.